OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2002 No. 3183

## Rheoliadau Gwerthoedd Terfyn Ansawdd Aer (Cymru) 2002

**Cyfrifoldeb dros weithredu Cyfarwyddeb Fframwaith Aer**

**3.** At ddibenion Erthygl 3 (gweithredu a chyfrifoldebau) o Gyfarwyddeb y Cyngor 96/62/EC ar asesu a rheoli ansawdd aer amgylchynol(**1**) y Cynulliad Cenedlaethol yw'r awdurdod cymwys yng Nghymru dros y canlynol—

(a) gweithredu'r Gyfarwyddeb honno;

(b) asesu ansawdd aer amgylchynol;

(c) cymeradwyo dyfeisiadau mesur (dulliau, cyfarpar, rhwydweithiau a labordai);

(ch) sicrhau cywirdeb mesur drwy ddyfeisiadau mesur a gwirio bod y dyfeisiadau hynny yn parhau'n gywir, yn benodol drwy reoli ansawdd yn fewnol a gyflawnir yn unol â safonau sicrwydd ansawdd cymwysadwy, gan gynnwys safonau Ewropeaidd;

(d) dadansoddi dulliau asesu; a

(dd) cydlynu rhaglenni sicrwydd ansawdd ledled y Gymuned Ewropeaidd yng Nghymru, ac eithrio i'r graddau y mae'r cydlynu hwnnw yn golygu cyfathrebu â'r Gymuned Ewropeaidd.

(**1**) OJ Rhif L296, 21.11.96, t. 55.